The Sector Skills Council for the Audio Visual Industries

Press Release

Awst 8, 2007

Datganiad i'r Wasg

Cynllun hyfforddi ôl-gynhyrchu newydd i Gymru

Mae Skillset, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiannau Clyweledol, a Soho Editors mewn parneriaeth â Barcud Derwen, y cwmni adnoddau Teledu mwyaf y tu allan i Lundain, yn cyflwyno'r Cynllun First Post yng Nghymru.

Cynhelir First Post, y cynllun hyfforddi arloesol i newydd-ddyfodiaid ar gyfer y diwydiant ôl-gynhyrchu yng Nghymru yr hydref hwn. Cynllun modwlar ydyw, sy'n cwmpasu sgiliau technegol, masnachol a chwsmeriaid, ac mae eisoes wedi cael ei dreialu yn llwyddiannus gan hyfforddeion mewn amrywiaeth o gwmnïau ar draws Llundain.

Yn wreiddiol cafodd ei greu gan Skillset a'r diwydiant ôl-gynhyrchu gyda chefnogaeth UK Screen (UK Post gynt) a sefydliadau masnach eraill. Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i helpu cyflogwyr i ddarparu datblygiad strwythuredig i aelodau staff iau o fewn cwmnïau adnoddau a chwmnïau cynhyrchu.

Dywedodd Gwawr Hughes, Cyfarwyddwraig Skillset Cymru "Rydym yn hapus iawn bod First Post yn dod i Gymru a'i fod yn cael ei redeg gan Barcud Derwen, un o'r cwmnïau adnoddau Teledu mwyaf yn y DU. Bydd hyfforddeion yn dysgu hanfodion gweithredu technegol, sgiliau trin cwsmeriaid yn ogystal â sgiliau masnachol. Cynhelir y cynllun dros gyfnod o dair wythnos, un wythnos y mis, gyda sesiynau rhyddhad undydd yn cynnwys dysgu rhyngweithiol, darlithoedd dosbarth, ymweliadau i wahanol safleoedd a chyflwyniadau gan arbenigwyr o'r diwydiant".

Bryn Roberts, Rheolwr Gyfarwyddwr Grŵp Barcud Derwen, sef y cwmni sy'n gweithredu'r cynllun, "Bydd First Post Wales yn darparu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw. Cafwyd mewnbwn gan UK Post & Services, y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant ffilmiau a darlledu, ac oddi wrth y cwmnïau sy'n anfon aelodau o staff ar y cwrs".

Bydd y Cynllun yn dechrau ym mis Medi 2007 ac yn derbyn cymhorthdal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ymgynghorir yn gyson gyda'r sectorau drwy gydol y project fel bod modd ymateb i newidiadau o fewn i'r diwydiant.

Mae Barcud Derwen bellach yn recriwtio cwmnïau â diddordeb mewn anfon eu staff ar y Cynllun. Dylai'r rhai â diddordeb anfon e-bost i gychwyn at vickyj@skillset.org

-Diwedd-

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rajiv Maharaj, Rheolwr y Wasg a Chyhoeddusrwydd
rajivm@skillset.org 020 7520 5752

Nodiadau i'r Golygydd:

1. **Skillset yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiannau Clyweledol**. Mae diwydiannau clyweledol yn y cyd-destun hwn yn golygu'r Diwydiannau Darlledu, Ffilm, Fideo a Chyfryngau Rhyngweithiol. Skillset oedd y Cyngor Sgiliau Sector cyntaf i dderbyn trwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau a chan y Gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig yn 2002 i fynd i'r afael â'r her sgiliau a chynhyrchedd. Mae Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) yn sefydliadau annibynnol, DU gyfan a ddatblygwyd gan grwpiau o gyflogwyr dylanwadol mewn sectorau diwydiant neu fusnes o bwysigrwydd economaidd neu strategol. Arweinir CSSau gan gyflogwyr, ac maent yn cynnwys undebau llafur, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn y sector yn weithredol.

2. Mae ôl-gynhyrchu yn sector pwysig yn y DU, ac mae'n cyflogi amcangyfrif o 15,000 o bobl gyda throsiant o bron i £1.4 biliwn y flwyddyn. Yn ôl Cyfrifiad Cyflogaeth Skillset a'r Cytundeb Sgiliau Sector i Gymru, mae'r sector adnoddau yn cyflogi 258 o bobl yng Nghymru (yn cynnwys gweithwyr llawrydd oedd yn gweithio ar Ddiwrnod y Cyfrifiad), gydag ôl-gynhyrchu yn cyfrif am 143 a llogi stiwdios / offer yn darparu gwaith i 116. Mae ymchwil Skillset i'r materion sy'n bygwth dyfodol y sector hwn wedi amlygu'r angen am gynllun hyfforddiant strwythuredig i newydd-ddyfodiaid.